



Rt Hon Yvette Cooper,
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2411

25 Hydref/ October 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Dear Home Secretary,

Arolygiad i weithredaeth a didueddrwydd mewn plismona

An inspection into activism and impartiality in policing

Fel sy'n ofynnol drwy statud, 'rwyf yn ysgrifennu atoch yn ymateb i adroddiad Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF) ynglŷn ag arolygiad i weithredaeth a didueddrwydd mewn plismona.

As required by statute, I am writing to you in response to His Majesty's Inspectorate of Constabulary, Fire and Resue Service's (HMICFRS) report on an inspection into activism and impartiality in policing.

Roedd yr adroddiad ynglŷn â gweithredaeth a didueddrwydd mewn plismona wedi'i gomisiynu gan yr Ysgrifennydd Cartref, yn dilyn sawl digwyddiad yn genedlaethol wnaeth ymddangos i leihau ymddiriedaeth y cyhoedd mewn plismona. O ganlyniad i'r adroddiad, mae 22 argymhelliad, ac mae naw o'r rheiny ar gyfer y Prif Gwnstabiaid. Rhaid nodi nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn un o'r heddluoedd o dan sylw fel rhan o'r arolygiad hwn.

The report into activism and impartiality in policing was commissioned by the Home Secretary following several incidents nationally that appeared to reduce public trust in policing. The report has resulted in 22 recommendations, nine of which are for Chief Constables. It must be noted that North Wales Police were not one of the forces inspected as part of this inspection.

Mae'r argymhelliad cyntaf ar gyfer Prif Gwnstabiaid yn gofyn bod heddluoedd yn diweddarau eu polisiau i adlewyrchu cyngor y Coleg Plismona ar gyfathrebu ar faterion gwleidyddol a dadleuol. Rwyf yn sicr wedi i'r Coleg Plismona ddiweddarau eu harfer proffesiynol awdurdodedig ar gyfathrebu ac ymgysylltu bydd Heddlu Gogledd Cymru yn ystyried cynnwys unrhyw newidiadau o fewn eu polisiau.

The first recommendation for Chief Constables requests that forces update their policies to reflect the College of Policing advice on communicating about politicised and contentious issues. I am assured that once the College of Policing updates their engagement and communication authorised professional practice, North Wales Police will consider any respective changes for inclusion within their policies.

Mae'r Arolygiaeth wedi nodi nad oes gan heddluoedd gyfeiriadau eglur i'w gweithlu ynglŷn â

The Inspectorate have identified that forces don't have clear direction for their workforce about

☎ 01492 805486

@ OPCC@northwales.police.uk

🌐 www.northwales-pcc.gov.uk



gwisgo ac arddangos symbolau gweladwy. Er bod symbolau gweladwy, megis bathodynnau a chortynnau, yn cael eu defnyddio er mwyn dangos aelodaeth a chefnogaeth o grwpiau penodol, teimlir bod angen i Brif Gwnstabiliaid gyfathrebu'r fath bolisiau yn eglur i'r gweithlu, ac i weithredu'r polisi. Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei adolygu gan dîm y Prif Gwnstabl, a bydd yn cael ei drafod yn y pwyllgor Gwisg ac Offer, er mwyn sicrhau bod y Protocol Gwisg ac Ymddangosiad yn adlewyrchu safbwynt yr heddlu yn gywir.

Mae'r trydydd argymhelliad yn gofyn bod y personél sy'n gyfrifol am gwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb wedi cael yr hyfforddiant priodol ar gyfer cyflawni hynny, a bod mesurau llywodraethol mewn lle er mwyn mesur eu hansawdd. 'Rwyf yn fodlon bod cwblhad bob asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei gefnogi gan yr Uned Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac mae unrhyw fylchau yn cael eu trafod yn y Bwrdd Cymraeg, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae gofyn bod pob heddlu yn archwilio eu polisiau sy'n cynnwys neu'n berthnasol i'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae hyn yn cynnwys proses effeithiol ar gyfer adolygu a diweddarau polisiau yn rheolaidd. Rwyf yn hyderus bod gan yr Heddlu strwythur lywodraethol priodol mewn lle ar gyfer adolygu a diweddarau polisiau. Mae'r holl bolisiau yn cael eu hadolygu yn y Bwrdd Sicrwydd, sy'n gwasanaethu'r Bwrdd Rheolaeth Strategol ar gyfer cadarnhad, ac i sicrhau bod pob polisi yn cydymffurfio.

Yn dilyn Ymchwiliad Stephen Lawrence, argymhellwyd y dylid cofnodi ac archwilio pob digwyddiad yn ymwneud â chasineb, sy'n cynnwys digwyddiadau casineb nad ydynt yn droseddau

wearing and displaying visible representations. Although visible representations such as badges and lanyards are used to show membership and support for specific groups, it is felt that Chief Constables need to clearly communicate such policies to the workforce and enforce the policy. This recommendation is being reviewed by the Chief Constable's team and it will be discussed at the Clothing and Equipment committee to ensure that the Dress and Appearance Protocol correctly reflects the Force's position.

The third recommendation requests that those personnel responsible for completing equality impact assessments are appropriately trained to do so and governance measures are in place to measure their quality. I am satisfied that the completion of all equality impact assessments are supported by the Equality, Diversity and Inclusion Unit (EDI) and any gaps are discussed at the Welsh Language and Equality, Diversion and Inclusion Board.

It is requested that all forces should audit their policies that include or relate to the Equality Act 2010, this includes an effective process for regularly reviewing and updating policies. I am confident that the Force has an appropriate governance structure in place for reviewing and updating force policies. All policies are reviewed at the Assurance Board which feeds into the Strategic Management Board for final ratification and to ensure all policies are compliant.

Following the Stephen Lawrence Inquiry, it was recommended that all hate related incidents should be recorded and investigated which includes non-crime hate incidents (NCHI). The Inspectorate have

☎ 01492 805486

@ OPCC@northwales.police.uk

🌐 www.northwales-pcc.gov.uk



(NCHI). Mae'r Arolygiaeth yn gofyn bod heddluoedd yn diweddarau ac yn gweithredu eu polisiâu a'u canllawiau ynghylch digwyddiadau casineb nad ydynt yn droseddau, a darparu cyfarwyddyd eglur i swyddogion a staff. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Chofrestrydd Troseddau a Ddigwyddiadau'r Heddlu a'r Uned Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, er mwyn deall y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd, ac er mwyn penderfynu os oes angen unrhyw newidiadau. 'Rwyf yn fodlon bod gwaith ar y gweill er mwyn cwblhau'r argymhelliad hwn.

Mae'r adroddiad yn nodi bod cofnodi digwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb ac echdynnu'r data perthnasol yn her sylweddol i rai heddluoedd. Y chweched argymhelliad ar gyfer y Prif Gwnstabiaild ydy sicrhau bod proses cofnodi digwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb yr heddluoedd yn caniatáu echdynnu data ar gyfer ei ddadansoddi. 'Rwyf wedi cael sicrhau bod holl ddiwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb yn trosglwyddo i'r System Rheoli Cofnodion (RMS) ac yn cael eu cofnodi yn briodol. Mae pob digwyddiad sy'n ymwneud â chasineb yn cael eu hadolygu yn fisol gan y Rhingylliaid Cynorthwyol a'r Uned Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Nodwyd nad ydy prosesau adolygu rhai heddluoedd ar gyfer digwyddiadau casineb nad ydynt yn droseddau bob amser yn cyflawni craffu effeithiol. Mae'r argymhelliad yn gofyn bod pob heddlu yn datblygu proses effeithiol ac effeithlon ar gyfer asesu ac adolygu digwyddiadau casineb. 'Rwyf yn fodlon bod gan Heddlu Gogledd Cymru brosesau mewn lle ar gyfer adolygu digwyddiadau sy'n ymwneud â chasineb. Bydd trafodaethau pellach ynghylch y craffu hwn yn y Bwrdd Cymraeg, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mis Tachwedd.

Mae'r arolygiaeth wedi darganfod anghysondeb yng nghofnodi data personol ar ddiwyddiadau casineb

requested that forces update and implement their policies and guidance for non-crime hate incidents and provide clear guidance to officers and staff. Discussions are ongoing with the Force Crime and Incident Registrar and the EDI Unit to understand the current situation and determine if any changes are required. I am satisfied that work is ongoing to complete this recommendation.

The report has identified that the recording of hate-related incidents and the retrieval of data is a significant challenge in some forces. The sixth recommendation for the Chief Constable is to ensure that the forces recording process for hate-related incidents allows for data extraction for the analysis. I am assured that all hate related incidents interface onto the Records Management System (RMS) and are recorded appropriately. All hate related incidents are reviewed monthly by the support Sergeants and the EDI Unit.

It has been highlighted that some forces review processes for hate related incidents doesn't always provide effective scrutiny. The recommendation requests that each force develops an effective and efficient process for assessing and reviewing hate incidents. I am satisfied that North Wales Police have processes in place to review hate related incidents. Further discussions around this scrutiny will be discussed at the November Welsh Language and Equality, Diversion and Inclusion Board.

The inspectorate has found inconsistencies in the recording of personal data for non-crime hate

☎ 01492 805486

@ OPCC@northwales.police.uk

🌐 www.northwales-pcc.gov.uk



nad ydynt yn droseddau. Maen nhw wedi argymhell bod pob heddlu yn diffinio'r gofynion i gofnodi data personol yn eglur yn eu polisiau. 'Rwyf yn fodlon bod trafodaethau ar y gweill gyda'r Uned Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, er mwyn deall safle Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd, ac er mwyn penderfynu os oes angen newidiadau.

Mae'r argymhelliad olaf yn gofyn bod heddluoedd yn sicrhau bod ganddyn nhw broses asesu gadarn ar gyfer dosrannu buddsoddiad a rhoi cefnogaeth i'w rhwydweithiau, drwy flaenoriaethu anghenion lleol. 'Rwyf wedi cael sicrhau bod y system bresennol yn cael ei hadolygu gan y Prif Gwnstabl er mwyn penderfynu ei heffeithiolrwydd. Ar hyn o bryd, mae cyllideb sydd wedi'i ganoli o fewn yr heddlu, a gallai holl rwydweithiau'r staff ymgeisio i'w ddefnyddio. Nid oes dosraniad fesul rhwydwaith.

Fe wnaif i fonitro cynnydd a chwblhad Heddlu Gogledd Cymru o bob un o'r argymhellion o fewn yr adroddiad hwn yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol, lle 'rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol ac fel rhan o fy nghraffu parhaus o'r heddlu.

incidents. They have recommended that all forces clearly define in policies the requirements for recording this personal data. I am content that discussions are ongoing with the EDI Unit to understand the current position in North Wales and determine whether changes are required.

The final recommendation request that forces make sure they have a robust assessment process for allocating funding and giving support to their networks by prioritising local needs. I am assured that the current system is being reviewed by the Chief Constable to determine its effectiveness. There is currently a centralised budget within the Force that all staff networks can seek to utilise. It is not allocated per network.

I will monitor North Wales Police's progress and completion of each of the recommendations within this report at my Strategic Executive Board where I hold the Chief Constable to account and as part of my ongoing scrutiny of the force.

Yn gywir Yours sincerely

Andy Dunbobbin

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner

☎ 01492 805486

@ OPCC@northwales.police.uk

🌐 www.northwales-pcc.gov.uk